# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 27 Medi 2011** |
| Amser: | **09:00 – 10:30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_04_10_2011&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Ken Skates**<br>**Gwyn R Price**<br>**David Rees**<br>**Aled Roberts**<br>**Leanne Wood** |
| Tystion: | **Huw Vaughan Thomas, Auditor General for Wales, Wales Audit Office**<br>**Russell AJ Frith, Assistant Auditor General, Audit Scotland**<br>**Mark Taylor, Assistant Director, Audit Scotland**<br>**Terry Jones, Technical Manager, Wales Audit Office**<br>**Kevin Thomas, Assistant Auditor General, Wales Audit Office** |
| Staff y Pwyllgor: | **Bethan Webber (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

### 1. Adroddiad Audit Scotland ar gyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru

1.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod canfyddiadau adroddiad Audit Scotland ar gyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru.

### 2. Ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Jenny Rathbone a Julie Morgan. Roedd David Rees a Ken Skates yn dirprwyo ar eu rhan.

## 3. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru 2010-11

3.1 Cyflwynodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei adroddiad blynyddol a chyfrifon ar gyfer 2010-11 i'r Pwyllgor.

Camau i'w cymryd:

Cytunodd yr Archwilydd Cyffredinol i ddarparu:

- Nodyn yn esbonio a oedd y lleihad a gafwyd mewn costau eiddo o ganlyniad i uno'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2005 (i greu Swyddfa Archwilio Cymru) wedi cyflawni'r arbedion effeithlonrwydd a ragwelwyd.
- Rhagor o fanylion am y cynnydd mewn absenoldeb salwch hirdymor yn Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn diwethaf.

## 4. Trafodaeth am yr Amcangyfrif o Incwm a Gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2012

4.1 Cyflwynodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei amcangyfrif atodol ar gyfer 2011-12 i'r Pwyllgor.

Cam i'w gymryd:

Cytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddarparu:

- Manylion am strategaeth TGCh Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y tair blynedd nesaf.

## 5. Materion yn ymwneud â llywodraethiant ac atebolrwydd mewn cysylltiad ag Archwilydd Cyffredinol Cymru

5.1 Cytunodd y Pwyllgor i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried materion yn ymwneud â llywodraethiant ac atebolrwydd mewn cysylltiad ag Archwilydd Cyffredinol Cymru.

5.2 Bydd y Pwyllgor yn cytuno ar aelodaeth y grŵp gorchwyl a gorffen yn ffurfiol yn ei gyfarfod ar 4 Hydref 2011.

5.3 Cytunodd y Pwyllgor y bydd cyfarfod cyntaf y grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei gynnal ar 11 Hydref 2011.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.